

## **Beth yw'r CCRC?**

Fel arfer, mae'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol yn cael ei adnabod fel y CCRC. Fe gafodd ei sefydlu i edrych ar achosion troseddol. Mae'n edrych ar achosion lle mae pobl yn credu eu bod nhw wedi cael eu collfarnu o drosedd ar gam neu wedi cael eu dedfrydu'n anghywir. Mae'n edrych ar achosion lle mae pobl eisoes wedi colli eu hapêl.

Os bydd y CCRC yn gweld bod rhywbeth o'i le ar gollfarn neu ddedfryd, rydyn ni'n gallu anfon yr achos yn ôl i'r llys apêl. Er mwyn inni allu anfon achos ar gyfer apêl newydd, mae arnon ni angen rhywbeth newydd a phwysig fel tystiolaeth neu ddadl newydd a chryf sy'n gwneud i'r achos edrych yn wahanol erbyn hyn. Gall fod yn anodd iawn dod o hyd i hyn ac mae yna lawer o achosion sy'n methu cael eu cyfeirio ar gyfer apêl.

Mae'r CCRC yn gwbl annibynnol. Dydyn ddim yn gweithio i'r llysoedd, yr heddlu neu'r erlyniad. Dydyn ni ddim yn gweithio i'r bobl sy'n gwneud cais am adolygiad o'u hachos. Rydyn ni'n aros yn annibynnol ar bob ochr, er mwyn inni gael ymchwilio'n ddiudedd i gamweinyddiad cyfiawnder honedig. Gallwn gyfeirio achos yn ôl i'r llys apêl os oes rhyw dystiolaeth newydd arwyddocaol neu fater newydd arwyddocaol arall a allai effeithio ar ddiogelwch y gollfarn neu'r ddedfryd.

Mae'r CCRC yn cynnwys cydraddoldeb yn ei amcanion craidd. Mae'n gwneud pob ymdrech i ddileu gwahaniaethu o'i wasanaeth. Mae wedi ymrwymo i greu diwylliant cynhwysol lle mae'n creu cyfle cyfartal i'r holl staff. Mae'r CCRC yn darparu hyfforddiant parhaus i'w staff ar faterion cydraddoldeb.

## **Beth mae'r CCRC yn ei wneud?**

Gallwn ymchwilio i gollfarn neu ddedfryd droseddol gan lysoedd penodol, sef Llys Ynadon, Llys y Goron, Llys Ieuentid, Llys Milwrol neu Lys Sifil y Lluoedd Arfog.

Dim ond y llysoedd apêl a gaiff wrth-droi collfarn neu leihau dedfryd. Gwaith y CCRC yw edrych ar achosion a'u hanfon yn ôl i'r llysoedd apêl. Rydyn ni'n gwneud hyn os ydyn ni'n credu bod rheswm da dros wneud hynny. Os anfonwn ni achos ar gyfer apêl, mae'n rhaid i'r llys wrando'r apêl. Pan anfonwn ni achos ar gyfer apêl, chaiff y llys ddim ychwanegu at y ddedfryd, hyd yn oed os bydd yn gwrthod yr apêl.

Mae gennyn ni bwerau cyfreithiol arbennig i'n helpu i ymchwilio i achosion. Gallwn ddefnyddio'r bwerau hyn i sicrhau'r dogfennau mae arnon ni eu hangen oddi wrth gyrrff cyhoeddus a phreifat yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan yr heddlu, yr erlyniad, a'r llysoedd. Gallwn ddadansoddi tystiolaeth, ystyried cyfraith achosion newydd, a chyfarwyddo arbenigwyr gwyddonol. Rydyn ni hefyd yn cael olrhain tystion newydd a hen dystion a chyfweld â nhw.

Rydyn ni'n annibynnol. Y CCRC sy'n penderfynu pa ddogfennau y dylai eu sicrhau a pha ymchwiliadau y dylai eu cynnal.

Rydyn ni'n cael edrych ar hen achosion. Does dim terfyn amser o ran gwneud cais i'r CCRC. O ran hen achosion, gall fod yn fwy anodd am ei bod yn bosibl y bydd papurau a thystiolaeth wedi cael eu dinistrio.

Rydyn ni'n cael edrych ar eich achos os nad oes cynrychiolydd cyfreithiol gennych. Does dim rhaid ichi gael cynrychiolydd cyfreithiol i wneud cais i ni, ond efallai y bydd cyfreithiwr yn gallu eich helpu.

Dydyn ni ddim yn cael edrych ar orchmynion atal. Dim ond ar y gollfarn neu'r ddedfryd y cododd y gorchymyn yn eu sgil y gallwn ni edrych.

Dydyn ni ddim yn cael ymchwilio i faterion sifil na materion sy'n ymwneud â mewnfudo.

### **Pwy gaiff wneud cais i'r CCRC?**

Caiff unrhyw un wneud cais i'r CCRC os ydyn nhw'n credu eu bod wedi'u collfarnu am drosedd yn anghywir neu wedi'u dedfrydu'n anghywir. Mae'n rhaid eich bod wedi'ch cael yn euog mewn llys troseddol yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon. Gallwch ofyn inni edrych ar eich collfarn, neu eich dedfryd, neu'r ddau. Dyw gwneud cais inni ddim yn costio dim byd.

### **Pryd dylwn i wneud cais i'r CCRC?**

Dylech wneud cais i'r CCRC ar ôl ichi geisio apelio drwy'r llysoedd yn y ffordd arferol.

Rydych chi'n dal yn cael ceisio apelio hyd yn oed os ydych chi'n credu eich bod wedi methu'r dyddiad cau ar gyfer apelio. Os ydych chi eisoes wedi colli'ch apêl ond eich bod yn dal i gredu eich bod wedi cael eich collfarnu neu eich dedfryd ar gam, dylech wneud cais i'r CCRC am adolygiad o'ch achos.

### **Beth os nad ydw i wedi apelio?**

Os nad ydych chi wedi apelio drwy'r llysoedd yn y ffordd arferol, bydd y CCRC fel arfer yn ysgrifennu atoch i egluro bod angen ichi fynd yn ôl a cheisio apelio. Ychydig iawn o achosion y mae'r CCRC yn eu derbyn lle mae pobl yn gwneud cais i ni cyn iddyn nhw geisio apelio yn y ffordd arferol. Dim ond os oes yna resymau arbennig iawn y gallwn ni gyfeirio achosion heb fod apêl wedi'i gwneud ymlaen llaw. Yr enw ar hyn yw "amgylchiadau eithriadol".

I gael gwybodaeth am sut i apelio gallwch gysylltu â'r Swyddfa Apelau Troseddol ar 020 7947 6011.

### **Beth yw "amgylchiadau eithriadol"?**

Mae amgylchiadau eithriadol yn brin iawn. Mae'n rhaid bod yna reswm da pam na wnaethoch chi apelio. Rhaid bod yna reswm da hefyd pam na allwch apelio nawr heb gymorth y CCRC. Does dim amgylchiadau eithriadol awtomatig. Rydyn ni'n penderfynu a oes amgylchiadau eithriadol ar sail y ffeithiau ym mhob achos.

### **Beth sy ddim yn amgylchiad eithriadol?**

Dyma enghreifftiau o bethau nad ydyn nhw'n amgylchiadau eithriadol:

Eich bod chi wedi anghofio apelio neu eich bod wedi methu'r dyddiad cau. Yn y sefyllfaoedd hyn, rydych chi'n dal yn cael gofyn i'r llys am apêl. Yr enw ar hyn yw apelio "y tu allan i'r amser".

Eich bod wedi cael cyngor gan eich cyfreithiwr neu'ch bargyfreithiwr nad oes gennych chi sail dros apelio. Nid yw hyn yn eich atal rhag apelio.

Eich bod wedi methu cael cyfreithiwr neu fargyfreithiwr i'ch helpu i apelio. Gallwch wneud cais am apêl eich hun heb gymorth cyfreithiol.

### **Ble ca i wybodaeth am apelio yn y ffordd arferol?**

Os cawsoch eich collfarnu yn Llys y Goron, fe welwch chi wybodaeth ddefnyddiol am apelio mewn llyfryn o'r enw 'Appealing a conviction or sentence to the Court of Appeal – help for applicants'. Fe ddylai fod copiâu ohono yn eich llyfrgell yn y carchar. Gallwch gael y llyfryn a'r ffurflenni angenrheidiol ar y rhyngwyd. Ewch i <https://www.gov.uk/appeal-against-crown->

[court-verdict](#). Gallwch gael copi papur o'r llyfryn a'r ffurflenni drwy ffonio'r Swyddfa Apelau Troseddol ar 020 7947 6011.

Mae gan yr elusen JUSTICE llyfryn defnyddiol hefyd, o'r enw 'How to Appeal'. Mae hwn yn ymdrin ag apelau yn achosion Llys y Goron. Gallwch ddod o hyd iddo yma: <https://justice.org.uk/our-work/publications/how-to-appeal>.

Gallwch weld gwybodaeth am apelio mewn perthynas ag achosion llys ynadon yn [www.gov.uk/appeal-against-sentence-conviction](http://www.gov.uk/appeal-against-sentence-conviction)

### **Sut mae gwneud cais i'r CCRC?**

Os ydych chi wedi colli apêl a'ch bod chi erbyn hyn yn dymuno gwneud cais i'r CCRC, mae angen i geisiadau gael eu gwneud mewn ysgrifen gan ddefnyddio ffurflen gais y CCRC.

Nid prawf yw'r ffurflen gais ac rydyn ni wedi ceisio ei gwneud mor hawdd ag y gallwn.

Gallwch apelio drwy:

- llenwi ffurflen gais bapur
- argraffu fersiwn PDF o'r ffurflen oddi ar ein gwefan
- llenwi'r ffurflen gais ar-lein.

Byddwn yn postio ffurflen gais atoch os byddwch yn cysylltu â ni. Cysylltwch â ni ar 0121 233 1473 neu drwy anfon neges ebost at [info@ccrc.gov.uk](mailto:info@ccrc.gov.uk).

Os byddwch yn anfon ffurflen bapur aton ni, mae'n rhaid ichi lofnodi'r ffurflen gais cyn ei hanfon.

Caiff rhywun arall wneud cais drosoch chi. Byddwn yn cysylltu â chi i wirio eich bod chi am inni edrych y mewn i'ch achos.

Os byddwch yn llenwi'r ffurflen ar-lein, fe gewch chi neges e-bost gennym i ddweud ein bod wedi'i chael. Fe gewch chi'r neges hon o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl ichi gyflwyno'ch ffurflen ar-lein. Yna gallwch e-bostio unrhyw ddogfennau aton ni a fydd yn ein helpu yn eich barn chi.

Does dim modd cadw'r ffurflen ar-lein a dod yn ôl ati, felly efallai y byddwch am ddarllen drwy'r fersiwn pdf a chasglu'ch gwybodaeth ynghyd cyn ichi ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein.

Cofiwch: mae angen tystiolaeth newydd neu ddadl gyfreithiol newydd arwyddocaol er mwyn i'r CCRC allu cyfeirio'ch achos at lys apêl. Mae angen i hyn fod yn rhywbeth nad oes llys wedi'i glywed yn barod o'r blaen.

Eich cais yw eich cyfle chi i ddweud popeth wrthon ni am yr hyn sydd o'i le ar eich collfarn a/neu'ch ddedfryd

### **Beth yw "tystiolaeth neu ddadl gyfreithiol newydd arwyddocaol"?**

Mae hyn yn golygu rhywbeth sydd heb gael ei drin a'i drafod yn eich treial na'ch apêl. Er enghraifft, tystiolaeth newydd nad oedd yn hysbys ar y pryd, neu ddatblygiad newydd mewn gwyddoniaeth. Allwn ni ddim edrych eto ar bethau a oedd yn hysbys i'r rheithgor, y barnwr, neu'r ynadon. Allwn ni ddim edrych eto ar wybodaeth a oedd yn hysbys yn eich treial hyd yn oed os ydych chi'n credu eu bod nhw wedi gwneud y penderfyniad anghywir yn eich achos. Mae angen inni ddod o hyd i rywbeth newydd sy'n gwneud i'ch achos edrych yn wahanol iawn erbyn hyn. Allwn ni mo'ch helpu os byddwch yn ailadrodd yr un pwyntiau inni a gafodd eu gwneud yn eich treial neu'ch apêl, a dim byd arall.

Mae ar y CCRC angen rhywbeth newydd a phwysig a fydd yn gwneud i'r llys apêl feddwl mewn ffordd wahanol am eich achos. Mae angen i chithau ddweud popeth wrthon ni yn eich ffurflen gais sy'n newydd yn eich barn chi ac a allai wneud gwahaniaeth yn eich achos.

### **Beth fyddwch chi'n ei wneud gyda fy ffurflen gais i?**

Pan gawn ni'ch ffurflen gais, byddwn yn ysgrifennu atoch ynghylch beth fydd yn digwydd nesaf. Wedyn byddwn yn sicrhau unrhyw ddeunydd y gall fod arnon ni ei angen, fel y ffeiliau gan y llys lle cawsoch eich collfarnu a'r ffeiliau o'ch apêl. Efallai y bydd angen inni sicrhau dogfennau eraill cyn y gallwn ni benderfynu a allwn ni adolygu'ch achos ai peidio. Os penderfynwn y dylen ni ddechrau adolygu'ch achos, byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthoch chi. Ond, efallai y byddwn yn penderfynu na allwn ni adolygu'ch achos, er enghraifft:

Os oes gennych chi apêl yn yr arfaeth.

Os nad ydych wedi ceisio apelio o'r blaen ac nad oes rhesymau arbennig pam y dylen ni adolygu'ch achos cyn ichi geisio apelio yn y ffordd arferol. (Gweler uchod 'Beth os nad ydw i wedi apelio?')

Os nad yw'ch cais yn codi unrhyw bwyntiau newydd arwyddocaol a allai ganiatáu inni anfon eich achos am apêl.

Os penderfynwn ni fod sefyllfa fel hyn yn gymwys yn eich achos chi, byddwn yn ysgrifennu atoch i egluro'n penderfyniad.

### **Beth fyddwch chi'n ei wneud gyda fy ngwybodaeth i?**

Os byddwch chi'n gwneud cais i'r CCRC, fe ddefnyddiwn ni'r wybodaeth a gawn ni gennych i helpu i ymchwilio i'ch achos. Efallai y caiff ei defnyddio i gael gafael ar ddeunydd sy'n perthyn i sefydliadau eraill. Gallai hyn fod yn wybodaeth amdanoch chi neu am unrhyw berson neu bwnc arall os ydyn ni'n credu y gallai gael effaith ar eich achos

Rydyn ni'n gallu sicrhau unrhyw ddeunydd rydyn ni'n credu bod arnon ni ei angen hyd yn oed os nad yw sefydliadau neu unigolion yn awyddus inni ei gael. Ar ôl inni ddechrau ymchwilio i achos, byddwn yn penderfynu pa ddeunydd y mae arnon ni ei angen. Rydyn ni'n ofalus iawn â'r wybodaeth sydd gennyn ni. Rydyn ni'n ceisio sicrhau'r hyn sydd ei angen arnon ni yn unig. Rydyn ni'n ceisio cadw'r wybodaeth dim ond cyhyd ag y bydd angen inni wneud hynny. Rydyn ni'n ofalus iawn ynglŷn â sut a phryd rydyn ni'n rhannu gwybodaeth am achosion. Dim ond pan fydd hynny'n cael ei ganiatáu gan Ddeddf Apelau Troseddol 1995 a Deddf Diogelu Data 2018 y byddwn ni'n rhannu gwybodaeth. Pan fyddwn ni'n cyfeirio achos ar gyfer apêl, rydyn ni fel arfer yn rhannu'r wybodaeth am yr apêl gyda'r ymgeisydd, gyda'r llys apêl a chyda'r erlyniad. Pan fyddwn yn cyfeirio achos, byddwn fel arfer yn dweud wrth unrhyw ddioddefwr sy'n gysylltiedig â'r achos.

Rydyn ni fel arfer yn cyhoeddi datganiad byr i'r wasg yn nodi'r achos ac yn esbonio'r rhesymau sylfaenol dros ei gyfeirio. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu manylion cysylltu'r ymgeisydd gyda'r Gwasanaeth Cymorth Camweinyddu Cyfiawnder sy'n elusen a all gynnig cymorth i bobl sydd wedi'u collfarnu'n anghywir.

### **Pwy fydd yn penderfynu ar fy achos i?**

Ein Comisiynwyr ni sy'n penderfynu a ddylai achos gael ei anfon yn ôl i'r llys apêl. Mae'n Comisiynwyr yn dod o amryw o gefndiroedd proffesiynol. Mae gan lawer gymwysterau cyfreithiol. Mae pob un wedi'i ddewis oherwydd ei brofiad. Mae gan bob un ohonynt allu cydnabyddedig i wneud penderfyniadau pwysig mewn materion cymhleth. Mae'r comisiynwyr yn cael eu penodi gan y Frenhines ar gyngor y Prif Weinidog.

## **Faint o amser mae'n ei gymryd?**

Gallai adolygiad syml gymryd ychydig wythnosau yn unig. Gall adolygiad mwy cymhleth gymryd misoedd lawer.

## **A ga i Gymorth Cyfreithiol?**

Efallai y bydd cyfreithiwr yn gallu sicrhau cyllid i helpu gyda'ch achos o dan y cynllun Cymorth Cyfreithiol. Gallwch gael cyngor ar ddod o hyd i gyfreithiwr drwy gysylltu â Cyngor Cyfreithiol Sifil ar 0845 345 4345

## **Sut bydd y CCRC yn cyfathrebu â mi ynghylch fy achos?**

Ran amlaf byddwn yn ysgrifennu atoch chi neu'ch cynrychiolydd. Os ydych wedi rhoi cyfeiriad e-bost i ni, byddwn yn defnyddio hwnnw yn lle'r post. Rydyn ni bob amser yn cysylltu â chi i ddweud wrthoch chi pan fyddwn wedi cael eich ffurflen gais. Rydyn ni'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am unrhyw ddatblygiadau yn eich achos. Mae'n bwysig inni gael eich cyfeiriad cywir.

Cofiwch ddweud wrthon ni os bydd eich cyfeiriad yn newid neu os byddwch yn symud carchar. Mae yna reolau ar gyfathrebu â'r CCRC o'r carchar. Mae'r rheolau hyn wedi'u nodi yng Ngorchymyn 4400 y Gwasanaeth Carchardai. Os ydych chi'n cael trafferth o ran darllen neu ysgrifennu, byddwn yn ceisio dod o hyd i ffordd addas i gyfathrebu â chi. Byddwn hefyd yn ystyried cyfieithu deunydd i ieithoedd eraill lle bo angen hynny.

## **Sut galla i gysylltu â'r CCRC?**

Gallwch ffonio'r CCRC, ond rydyn ni'n yn hoffi cael pethau mewn ysgrifen. Mae arnon ni angen cofnod clir o bopeth er mwyn inni fynd yn ôl ato pan fyddwn ni'n meddwl am eich achos. Mae manylion cysylltu'r CCRC ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon.

## **Fyddwch chi'n ymweld â mi?**

Ran amlaf, rydyn ni'n gallu darganfod popeth y mae arnon ni ei angen mewn ysgrifen, neu dros y ffôn. Os ydyn ni'n credu bod angen inni siarad â chi wyneb yn wyneb gallwn drefnu cynhadledd fideo neu gyfarfod â chi.

## **Beth os bydd y CCRC yn penderfynu peidio ag anfon fy achos ar gyfer apêl arall?**

Os ydych chi'n credu nad ydych chi wedi cael eich trin yn deg, gallwch wneud cwyn ffurfiol i'r CCRC. Gallwch gwyno hyd at dri mis ar ôl inni gau eich achos. Byddwn yn edrych ar sut mae'r CCRC wedi ymddwyn. Allwn ni ddim adolygu'ch achos eto o dan y broses gwyno ffurfiol.

Os ydych chi'n credu bod rhywbeth o'i le ar y ffordd y gwnaethom ein penderfyniad, gallwch wneud cais i'r Llys Gweinyddol am adolygiad barnwrol. Does dim rhaid ichi gwyno i ni cyn ichi wneud hynny. Dylech fod yn ymwybodol bod yna derfynau amser yn y prosesau adolygu barnwrol. Dylech ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol cyn dilyn y llwybr hwnnw.

Rydych chi'n cael ailymgeisio i'r CCRC. Os oes gennych dystiolaeth neu ddadl newydd arwyddocaol nad yw wedi'i hystyried mewn treial, ar apêl neu mewn unrhyw geisiadau cynharach i'r CCRC, gallwch wneud ail gais. Bydd angen ichi lenwi ffurflen newydd i ddweud wrthon ni beth sy'n newydd. Mae angen ichi ddweud wrthon ni hefyd pam na chafodd y peth ei gynnwys yn eich cais cynharach.

## **Os bydd y CCRC yn adolygu fy achos i, a fydd hynny'n fy atal i rhag cael fy allgludo?**

Nid yw gwneud cais i'r CCRC yn rhoi hawl awtomatig ichi gael achos allgludo wedi'i atal. Os byddwn yn cyfeirio'ch achos ar gyfer apêl, yna fe allai'ch allgludiad gael ei atal nes bod yr apêl wedi'i gorffen. Os cewch chi'ch allgludo ar ôl ichi wneud cais i'r CCRC, gallwn adolygu'ch achos. Mae'n rhaid ichi roi cyfeiriad cysylltu neu gyfeiriad e-bost i ni.

### **Ydy fy nedfryd o garchar yn gallu cael ei gynyddu os byddaf yn gwneud cais i'r CCRC?**

Does dim modd cynyddu dedfryd o garchar os byddwch yn gwneud cais i'r CCRC. Does dim modd cynyddu dedfryd chwaith os byddwn yn anfon achos yn ôl i'r llys apêl.

### **Ble ca i ragor o wybodaeth am y CCRC a sut mae'n gweithio?**

Mae gwybodaeth fanwl am y CCRC ar gael mewn cyfres o ddogfennau ar ein gwefan. Yr enw ar y rhain yw polisïau ffurfiol. Gallwch lawrlwytho'r rhain oddi ar y rhyngrwyd drwy fynd i [www.ccr.gov.uk](http://www.ccr.gov.uk). Gallwch eu cael hefyd drwy ysgrifennu aton ni.